**WELSH A1 – STANDARD LEVEL – PAPER 2**
**GALLOIS A1 – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 2**
**GALÉS A1 – NIVEL MEDIO – PRUEBA 2**

Wednesday 22 May 2002 (morning)
Mercredi 22 mai 2002 (matin)
Miércoles 22 de mayo de 2002 (mañana)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Answer one essay question only. You must base your answer on at least two of the Part 3 works you have studied. You may include in your answer a discussion of a Part 2 work of the same genre if relevant. Answers which are not based on a discussion of at least two Part 3 works, will not score high marks.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- Ne pas ouvrir cette épreuve avant d'y être autorisé.
- Traiter un seul sujet de composition. Vous devez baser votre réponse sur au moins deux des œuvres de la 3e partie que vous avez étudiées. Le cas échéant, vous pouvez inclure dans votre réponse une discussion sur une œuvre du même genre littéraire étudiée dans la 2e partie du programme. Les réponses qui ne sont pas basées sur au moins deux des œuvres de la 3e partie n'obtiendront pas une note élevée.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Elija un tema de redacción. Su respuesta deberá basarse en al menos dos de las obras estudiadas en la Parte 3. Se podrán hacer comentarios sobre una obra de la Parte 2 del mismo género, si fuera necesario. Las respuestas que no incluyan una discusión sobre al menos dos obras de la Parte 3 no recibirán notas altas.

*Ysgrifennwch draethawd ar un o'r cwestiynau hyn. Rhaid ichi seilio eich ateb ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3 a astudiwyd gennych. Yn eich ateb cewch gynnwys trafodaeth ar waith rhan 2 o'r un genre, os yw'n berthnasol. Ni roddir marciau uchel am atebion nad ydynt wedi eu seilio ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3.*

**Barddoniaeth**

**1.** *Naill ai*

(a) Yn y cerddi a astudiwyd gennych, i ba raddau y llwydda'r bardd i gyflwyno deunydd ei bwnc?

*Neu*

(b) 'Dyfeisiau arddulliol fel rhythm, mydr a delweddaeth sy'n rhoi grym i waith bardd.' Trafodwch y gosodiad hwn yng ngoleuni'r gweithiau barddol a astudiwyd gennych.

**Drama**

**2.** *Naill ai*

(a) Ymdriniwch â'r modd y mae rhai o'r prif gymeriadau yn newid, yn datblygu neu'n aeddfedu mewn dwy neu dair o'r dramâu a astudiwyd gennych. Ni ddylid rhoi sylw i fwy na thri chymeriad ym mhob drama.

*Neu*

(b) I ba raddau y bernwch y gall dramâu helpu'r darllenydd/gwyliwr i ddeall bywyd a'r natur dynol yn well? Rhowch sylw neilltuol i o leiaf ddwy o'r dramâu a oedd yn rhan o'ch astudiaeth.

**Nofel**

**3.** *Naill ai*

(a) Cymherwch y modd y cyflwynir cymeriadau gwrthgyferbyniol mewn o leiaf ddwy o'r nofelau a astudiwyd gennych, a dywedwch pa effeithiau a gafodd y gwrthgyferbyniadau hyn ar eich gwerthfawrogiad o'r nofelau hynny.

*Neu*

(b) Pa ran a oedd gan emosiynau megis cariad, dicter a siom yn y nofelau a astudiwyd gennych, ac i ba raddau y llwyddwyd i beri i chi rannu'r emosiynau hynny, a sut y gwnaethpwyd hynny?

**Storïau byrion**

**4.** *Naill ai*

(a) Ymdriniwch â phrif nodweddion y gymeriadaeth mewn o leiaf ddau o'r gweithiau a astudiwyd gennych. Rhowch sylw neilltuol i'r modd y darlunnir y prif gymeriadau ac i'r modd y llwyddir i beri i chi gredu ynddynt ac i gydymdeimlo â hwy.

*Neu*

(b) Cymherwch y dulliau a ddefnyddiwyd, gan awduron y storïau byrion a astudiwyd gennych, i ymdrin â'u pynciau o fewn cynfyngiadau amlwg y *genre* hwnnw. Cyfeiriwch at o leiaf ddau o'r gweithiau.

**Hunangofiant a chofiant**

**5.** *Naill ai*

(a) Pa dechnegau a ddefnyddiwyd gan awduron y gweithiau y buoch yn eu hastudio (o leiaf dau ohonynt) i gyflwyno ac i oleuo hanes y bywydau o dan sylw?

*Neu*

(b) 'Yr hyn a wna cofiant/hunangofiant yn ddifyr yw ein bod yn gweld ynddo sut yr wynebwyd argyfyngau a sut y dysgwyd i fyw gyda'r canlyniadau.' Trafodwch o leiaf ddau o'r gweithiau yn eich astudiaeth yng ngoleuni'r dyfyniad hwn.

**Cyffredinol**

**6.** *Naill ai*

(a) I ba raddau, yn eich barn chi, y mae'n bwysig i'r llenor gydbwyso'r dwys a'r digrif? A oedd y fath gyfuniad i'w weld yn y gweithiau a astudiwyd gennych chi? Wrth ateb, dylech gyfeirio at o leiaf ddau ohonynt.

*Neu*

(b) 'Tra canolbwyntia rhai llenorion ar argyfyngau allanol, megis tlodi a salwch, canolbwyntia eraill ar argyfyngau mewnol, fel gofid ac unigrwydd.' A yw awduron y gweithiau a astudiwyd gennych chi yn syrthio i un o'r categorïau hyn, neu a yw'r sefyllfaoedd yn eu gweithiau yn fwy cymhleth eu natur?

*Neu*

(c) 'Mae cynllun a strwythur yn hanfod i bob gwaith llenyddol.' Sut y gofalwyd am y rhain gan awduron y gweithiau yn eich astudiaeth? Trafodwch o leiaf ddau o weithiau.

*Neu*

(ch) Ai'r gymdeithas ynteu'r unigolyn sydd bwysicaf i'r llenorion y buoch yn astudio eu gwaith? Gan gyfeirio at o leiaf ddau o'u gweithiau, eglurwch pa un ai'r elfen gymdeithasol ynteu'r elfen unigolyddol sydd amlycaf.